Gwefan
www.ysgolgymraeg.com

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

Diogelwch - Rydym wedi datblygu'r ardal wrth y brif fynedfa er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer casglu disgyblion ar ddiwedd y dydd. Gofynnir i rieni / gwarcheidwaid (heblaw'r Meithrin) aros tu allan i'r ffens / gât tan fod y plant yn cael eu rhyddhau.
Cyfyngir parcio tu allan i fynedfa'r ysgol i fysiau, tacsis ac anabl yn unig. Ni chaniateir i rieni barcio ym maes parcio'r staff. Erfynnir am gydweithrediad pawb er diogelwch y plant. Gyrrwch yn ofalus ac yn bwyllog ger yr ysgol a pheidiwch parcio mewn llefydd sy'n atal llif y drafnidiaeth!
Mae cerdded, beicio, rhannu ceir neu ddefnyddio'r maes parcio ger adeilad Mudiad yr Ysgolion Meithrin yn ffyrdd o leihau'r drafnidiaeth ger yr ysgol. Nododd adroddiad Estyn fod angen i'r ysgol barhau i gydweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau symudiad rhwydd i drafnidiaeth wrth fynedfa'r ysgol ar adegau prysur o'r dydd. Gofynnir am eich cydweithrediad llawn gyda'r mater hwn.

Cyrraedd yr ysgol ar amser - Mae bellach yn ofynnol arnom i gadw cofnod o blant sydd yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn gyson. Gwnewch bob ymdrech i sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol erbyn 9 o'r gloch ac yn cael ei gasglu yn brydlon ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Absenoldeb – Os fydd eich plentyn yn absennol mae angen ;

1. Cysylltu â'r ysgol i ddweud na fydd eich plentyn yn yr ysgol. (galwad ffôn neu e-bost cyn 9.00)
2. Ysgrifennu nodyn i athro / athrawes eich plentyn yn nodi'r rheswm am yr absenoldeb (danfonwch y nodyn gyda'ch plentyn pan fydd yn dychwelyd i'r ysgol)

Aelodaeth yr Urdd – Tâl aelodaeth yr Urdd am y flwyddyn addysgol fydd £6.00 y plentyn (ar gyfer disgyblion Blynddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6. Mi fydd y gweithgareddau yn cychwyn ym mis Hydref. Mae teuluoedd sydd eisiau ymaelodi tri neu fwy o ddisgyblion yn medru cael gostyngiad – ffurflenni ar gael gan yr ysgrifenyddes. Mi fyddwn yn dosbarthu amlenni arbennig i ddychwelyd y tâl cyn ddiwedd yr wythnos

Ffurflen data – Mae'n bwysig iawn eich bod yn cwblhau'r ffurflen a'i dychwelyd i'r ysgol yfory. Gwnewch yn siwr eich bod yn nodi eich cyfeiriad e-bost yn glir gan ein bod yn danfon gwybodaeth atoch drwy'r dull yma.

Cytundeb Cartref ysgol – Gobeithio y bydd modd i chwi drafod y cytundeb gyda'ch plentyn ac yna ei ddychwelyd i'r ysgol wedi ei arwyddo (mae hyn yn ofyniad statudol gan y Cynulliad)

Gwefan yr ysgol – Gellir gweld manylion am yr ysgol ar **www.ysgolgymraeg.com**

Estyniad i'r neuadd – Rydym yn anelu at gael y neuadd newydd yn barod erbyn diwedd y mis.

Clwb Gwarchod Plant Ar ôl Ysgol – Rydym yn gobeithio y bydd Camau Bach yn agor y clwb yn y neuadd newydd yn yr Ysgol Gymraeg ar ddechrau mis Hydref. Rhagor o fanylion i ddilyn.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams, Pennaeth 4/09/2012

Gwefan
www.ysgolgymraeg.com

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

Safety - We have developed the area by the main entrance in order to improve the arrangements for collecting children at the end of the school day. Parents and guardians (apart from Meithrin) are asked to remain outside the fence / gate until pupils are released.
Parking outside the main entrance has been set aside for buses, taxis and disabled only. Parents are not allowed to park in the staff car park. We ask for everyone's co-operation in this respect for the safety of the children. Please drive safely and slowly near the school and don't park in areas that block the flow of traffic.
Walking, cycling, sharing a car or using the car park by the Mudiad Ysgolion Meithrin are ways of reducing traffic near the school. The recent Estyn report recommended that the school needs to continue to work with the local authority to ensure the ease of flow of traffic by the school entrance at busy times of the day. Your cooperation is needed with this matter.

Arriving at school on time – As a school we have to keep a note of pupils who are continually arriving late to school. Please make every effort to ensure that your child arrives at school before 9 o'clock and is collected promptly at the end of the school day.

Absent from school – If your child is absent from school you need to;

1. Inform the school before 9 o'clock that your child will be absent (telephone or e-mail)
2. Write a letter to your child's teacher explaining the reason for the absence (send the letter to school with your child when he / she returns to school)

Urdd Membership – The cost for this academic year will be £6.00 per pupil (for Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 children only) The activities will commence in October. Families who have three children or more wanting to join the Urdd are entitled to a reduction in cost – forms available from the school secretary. Envelopes will be distributed by the end of the week to collect the money.

Data Form – It is important that you complete the form and return it to school tomorrow. Please note your e-mail address carefully as we also send letters and information via e-mail

Home School Agreement – I hope that you will be able to discuss the agreement with your child and then sign and return it to school (this is a statutory regulation by the Welsh Assembly)

Breakfast Club – The club opens at 8.15 and finishes at 8.45. Please do not bring your children before 8.15.

After School Child Care Club – We hope that Camau Bach will be opening the after school club at the start of October in the new hall at Ysgol Gymraeg. More details to follow.

School Website – Details regarding the school are available on www.ysgolgymraeg.com

Extension to the Hall – We aim to have the new hall ready by the end of the month.

If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.

R C Williams, Pennaeth/ Headteacher. 4/09/2012